# SL(5)110 – Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adolygu Penderfyniadau Rhestru) (Cymru) 2017

## Cefndir a Phwrpas

Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sy’n berthnasol i adolygiadau a gynhelir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â’u penderfyniad i gynnwys adeilad ar restr a lunnir neu a gymeradwyir o dan adran 1 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

## Y weithdrefn

Negyddol.

## Craffu Technegol

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 (vi) mewn perthynas â thestun Saesneg yr offeryn hwn.

Mewn rhai mannau yn y Rheoliadau, mae cyfeiriad at "in paragraph" ond nid oes rhif paragraff wedi'i gynnwys. Mae hyn yn digwydd yn rheoliadau 3(2), 6(2), 7(2), 11(2), 15(2) a 20(3).

Mae'r un broblem yn digwydd mewn perthynas ag "under regulation" yn rheoliad 7(2)(b).

Yn ogystal, nid yw rheoliad 7(2)(b) wedi cael ei ysgrifennu'n iawn. Y rheswm am hyn yw y dylai rheoliad newydd 7(2)(c) ddechrau gyda "confirm that copies ...”. Dylai rheoliad 7(2)(c) wedyn ddod yn 7(2)(d), ac yn y blaen.

Nid oedd y diffygion hyn yn y Rheoliadau drafft buom yn edrych arnynt.

Rydym yn deall drwy ein gohebiaeth gyda Llywodraeth Cymru nad oedd y fersiwn copi caled a lofnodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet yn cynnwys y problemau fformatio hyn, a bod y rhain yn y fersiwn a osodwyd yn unig. Rydym wedi cael gwybod gan Lywodraeth Cymru (ond nid ydym wedi gweld yr ohebiaeth wreiddiol) bod y Cofrestrydd OS wedi awdurdodi ailargraffiad o'r offeryn, fel ei fod yn cadw at y fersiwn a wnaed.

## Craffu ar rinweddau

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi adroddiad y Pwyllgor ac yn derbyn y pwyntiau a wnaed. Mae Cofrestrydd yr Offerynnau Statudol wedi cymeradwyo adargraffiad sy'n cywiro'r holl wallau fformadu.

## Ystyriaeth y Pwyllgor

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 22 Mai 2017. Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt technegol uchod.